




Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Antur yn yr Iseldiroedd



Roderick Hunt
Allan Beckett



Aeth Dad i'r archfarchnad. Aeth e â Cad a Dids gydag e. Roedd e eisiau iddyn nhw helpu.

“Cewch chi ddewis grawnfwyd,” meddai Dad.

“Ydych chi eisiau creision ŷd?”

“Gawn ni Gnau Crensiàn?” gofynnodd Cad.

“O'r gorau,” meddai Dad. “Newid bach y tro hyn.”



Aethon nhw i'r cownter caws. Roedd gwraig yn gwerthu caws arbennig.

“Caws Iseldiraidd yw hwn,” meddai'r wraig. “Edam yw'r enw arno. Mae'n cael ei wneud yn yr Iseldiroedd.” Rhoddodd y wraig flas o'r caws Edam iddyn nhw. “Rwy'n ei hoffi,” meddai Dids.

Roedd cynnig arbennig.

“Prynwch ddau gosyn ac fe gewch gap pêl-fas am ddim,” meddai'r wraig.

Prynodd Dad ddau gosyn a rhoi'r cap i Dids.

“Dyw hynny ddim yn deg,” meddai Cad.

Felly, yn y diwedd, prynodd Dad bedwar cosyn.



Aeth Dad â'r siopa i'r car. Roedd llawer i'w gario.
Rhoddodd Dad y cosynnau ar ben y car.

O na! Anghofiodd bopeth amdany'n nhw a gyrru i
ffwrdd gyda'r cosynnau ar y to.

"Pam mae pobl yn chwifio arnon ni?" gofynnodd
Cad.




Rhedodd ci i'r ffordd. Stopiodd Dad yn sydyn.
Llithrodd y cosynnau oddi ar y to. Disgynnon nhw ar
y ffordd a rholio i lawr y bryn.

"Help!" galwodd Dad. Rhedodd ar ôl y cosynnau.

"Cwrso'r cosyn yw hyn," chwarddodd Cad.

"Druan o Dad," meddai Dids.



Rhedodd lori dros ddau gosyn. Roedden nhw'n hollol wastad. Roedd tolc mawr yn un. Dim ond un oedd yn iawn. Tynnodd Dad ystumiau.

“Dyna drueni!” meddai.

“Caws caled,” chwarddodd Cad.

“Dyw e ddim yn ddoniol,” meddai Dad.



Gartref, aeth Cad a Dids i ystafell Cad. Roedden nhw am chwarae cerddoriaeth.

Yn sydyn disgleiriodd yr allwedd.

“Mae'n amser antur,” meddai Cad.

“Gobeithio nad antur am gaws fydd hi,” meddai Dids.



Aeth yr antur â nhw yn ôl mewn amser. Aeth â nhw i'r Iseldiroedd.

Roedden nhw ar forglawdd uchel.

Ar un ochr roedd y tir yn wastad iawn. Ar yr ochr arall roedd y môr.

Roedd y morglawdd yn cadw'r môr rhag y tir.

Edrychodd Dids o gwmpas.

“Mae melinau gwynt ymhob man,” meddai. “Rwy'n credu ein bod yn yr Iseldiroedd.”

“Mae'r tir yn wastad iawn,” meddai Cad. “Ond fedraf fi ddim gweld unrhyw dai.”


“Dere,” meddai Dids. “Beth am chwilio am bentref.”
Dechreuon nhw gerdded.



Daeth ceffyl a throl heibio. Roedd bachgen yn ei yrru.
Ar gefn y drol roedd cosynnau mawr crwn.

“Pa mor bell yw’r pentref agosaf?” gofynnodd Cad.

“Mae’n eithaf pell,” meddai’r bachgen. “Dringwch ar
y drol. Rhoddaf bas ichi.”




“Hans yw fy enw i,” meddai’r bachgen. “Rwy’n
mynd â’r cosynnau hyn i’r farchnad.”

“Cad ydw i,” meddai Cad. “A dyma Dids.”

“Am enwau rhyfedd!” meddai Hans.

Dechreuodd y ceffyl drotian. Dechreuodd y
cosynnau neidio o gwmpas yng nghefn y drol.



“Mae'r drol hon yn edrych braidd yn hen,” meddai Dids. “Ddylech chi fynd mor gyflym?”

“Na,” meddai Hans, “ond rwy'n hwyr ar gyfer y farchnad. Mae'n rhaid imi werthu'r cosynnau hyn i gyd.”

Aethon nhw heibio i ddyn ar gefn beic.

“Arafwch,” galwodd Cad.

Ar yr eiliad honno, daeth olwyn yn rhydd o'r drol.
“O help!” gwaeddodd Cad.

Llithrodd y cosynnau i ffwrdd a rholio o gwmpas y dyn ar y beic.

“Cymerwch ofal!” gwaeddodd y dyn. Disgynnodd oddi ar ei feic a sbonciodd ei gosyn allan o'i fasedd.



Neidiodd y dyn i fyny ac i lawr yn ei ddicter.

“Edrychwch ar fy meic!” gwaeddodd. “A ble mae fy nghosyn? Pa un o’r cosynnau hyn yw fy un i?”

Edrychodd Hans ar yr holl gosynnau ar y llawr.

“Pa ots am hynny?” meddai. “Maen nhw i gyd yr un peth. Cymerwch unrhyw un.”



Cododd y dyn y cosynnau. Edrychodd ar bob un.

“Rhaid imi gael gafael ar fy un i,” gwaeddodd.

O’r diwedd cafodd hyd iddo. “Dyma fy un i,” meddai.

Edrychodd Hans ar y drol oedd wedi chwalu. “Chaf fi byth mo’r cosynnau hyn i’r farchnad nawr,” cwynodd.

“Beth am eu cario,” meddai Dids. “Fe helpwn ni ti.”



Rhoddodd Hans y cosynnau mewn sachau.
Helpodd Cad a Dids eu cario. Roedd y sachau'n drwm
ac roedd yn waith caled.

Roedd y ffordd yn hir iawn ac yn syth. Rhedodd ar
hyd top y morglawdd.

Roedd y môr islaw lefel y ffordd.



“Diwedd annwyl! Mae'r sach hon yn drom,” meddai
Cad.

Yn sydyn clywon nhw rywun yn gweiddi. Merch
oedd hi. Rhedon nhw i weld beth oedd yn bod.

Roedd dŵr yn tasgu drwy'r morglawdd. Roedd y
ferch yn ceisio ei atal.

“Help!” bloeddiodd.



Daliodd y ferch ei dwylo dros y twll ond roedd dŵr yn dal i dasgu drwodd.

“Trudy yw fy enw i,” meddai. “Mae’n rhaid inni roi stop ar y dŵr. Os aiff y twll yn fwy, bydd y morglawdd yn hollti.”

“Os bydd hynny yn digwydd, bydd llifogydd ofnadwy,” meddai Hans.

Roedd y twll yn tyfu’n fwy ac yn fwy. Dechreuodd y dŵr lifo drwodd hyd yn oed yn gyflymach. Fedren nhw mo’i atal gyda’u dwylo.

Cafodd Cad syniad.

“Rhowch y cosynnau yn y twll,” meddai. “Mae cwyr o’u cwmpas. Efallai bydd hynny yn cadw’r dŵr yn ôl.”



Tynnodd Dids y sachau i lawr y clawdd a gwthion
nhw'r cosynnau i'r twll.

“Mae angen un arall arnom ni,” meddai Trudy.
Ar hynny aeth y dyn heibio.

“Helpwch ni, plis,” bloeddiodd Hans. “Mae'r
morglawdd yn gollwng.”

“Na, rwy ar frys,” meddai'r dyn.



Llenwon nhw'r twll gorau ag y medrent. Roedd dŵr
yn dal i ddod trwodd mewn ambell fan.

“Bydd yn rhaid imi chwilio am help,” meddai Trudy.
“Ond pam nad oedd y dyn yna yn barod i'n helpu?”

Aeth Dids gyda Trudy. Arhosodd Cad a Hans i
geisio atal y diferu rhag mynd yn waeth.



Rhedodd Trudy a Dids at felin wynt.

“Gobeithio bod rhywun fan hyn all ein helpu ni,” meddai Trudy.

Yn agos i’r felin wynt, gwelon nhw feic y dyn. Roedd yn pwyso yn erbyn ffens.

“Dyna ryfedd,” meddai Dids. “Rown i’n meddwl bod brys ar y dyn yna.”



Edrychodd Trudy a Dids drwy’r ffenestr. Roedd y dyn y tu mewn. Roedd cyllell ganddo. Roedd yn torri’r cosyn yn ei hanner.

“Pam mae e’n gwneud hynny?” meddai Dids. “Dyw e ddim fel petai e eisiau i neb ei weld.”


“Sh!” sibrydodd Trudy.



Y tu mewn i'r caws roedd diamwntau.

“Rwy mor glyfar,” chwarddodd y dyn. “Fydd neb yn gwybod mai fi ddygodd y diamwntau. Roedd y cosyn yn lle da i’w cuddio nhw.”

“Lleidr yw e,” sibrydodd Dids. “Mae’n rhaid inni wneud rhywbeth.”



Rhedodd Trudy a Dids i chwilio am dad Trudy.

Dywedon nhw wrtho fe am y morglawdd yn gollwng.

“Llenwon ni’r twll â chosynnau,” meddai Trudy.

“Syniad pwy oedd hynny?” gofynnodd tad Trudy.

Yna dywedodd Dids wrtho am y dyn â’r diamwntau a ddygwyd wedi eu cuddio yn y caws.



Galwodd tad Trudy ar y pentrefwyr a rhedon nhw i'r felin wynt. Roedd y Maer gyda nhw.

Roedd y lleidr yn y felin wynt. Roedd yn dal i edrych ar y diamwntau.

“Fy ngwraig i sy'n berchen ar y diamwntau yna,” meddai'r Maer. “Dygoch chi nhw o'm tŷ i.”



Clymodd y pentrefwyr y lleidr i'r felin wynt.

“Help!” gwaeddodd. “Gadewch imi ddod i lawr.”

“Bydd hyn yn wers iddo,” meddai Trudy. “Doedd e ddim am ein helpu ni.”

“Wel, caiff e aros yn y fan yna nes inni drwsio'r morglawdd,” meddai'r Maer.



Trwsiodd y pentrefwyr y morglawdd.
Helpodd Hans, a Cad a Dids hefyd.
“Whiw! Mae’r antur hon yn waith caled,” meddai
Cad. “Roedd y cosynnau yn drwm ond mae’r tywod hyd
yn oed yn drymach.”
“Dydw i ddim eisiau gweld cosyn arall,” meddai Dids.

Roedd golwg ofidus ar Hans.
“Fydd yna ddim arian yr wythnos hon,” meddai.
“Mae fy nhrol wedi torri. Nawr does gen i ddim cosynnau
i’w gwerthu.”
“Dim ots,” meddai Trudy. “Helpaist ti i achub y
morglawdd.”
“A dalion ni leidr,” meddai Dids.



Aeth pawb i'r pentref.

“Diolch,” meddai gwraig y Maer. “Ces i'r diamwntau yn ôl. Dyma wobwr.”

“Tair bloedd i Trudy a Hans a'u ffrindiau,” meddai'r Maer. “Nhw wnaeth atal y llifogydd. Roedd defnyddio'r cosyntau yn syniad penigamp.”



Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Roedd yn amser i Cad a Dids fynd.

Prynodd Hans ddau gosyn o'r farchnad. Rhoddodd nhw i Cad a Dids.

Rhoddon nhw eu capiau pêl-fas i Hans a Trudy. “Hwyl fawr,” medden nhw.



Aeth yr hud â Cad a Dids adref. Daeth Dad i mewn i ystafell wely Cad. “Ble mae’ch capiau pêl-fas chi?” gofynnodd.

“Y ... ym... rydyn ni wedi eu colli,” meddai Cad. Roedd Dad yn flin.

“Caws caled,” meddai Dids.

Antur yn yr Iseldiroedd

Mae'r allwedd hud yn mynd â Cad a Dids i'r Iseldiroedd. Maen nhw'n helpu atal morglawdd rhag hollti ac yn dal lleidr diamwntau – diolch i gosyn Iseldiraidd!



Cam 9 Rhagor o Storiâu A
Trefn ddarllen a argymhellir:

Y Llygad Glas
Achub!

Y Gorau yn y Lle
Y Peiriant Hedfan

Antur yn yr Iseldiroedd

Trafferth gydag Allwedd

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis